




Croeso

Croeso i'n digwyddiad ymgynghori cyhoeddus. Ein nod yw rhoi gwybodaeth fanwl i chi am gynigion ar gyfer Cysylltiad Grid Foel Trawsnant. Mae hefyd yn gyfle i chi sgwrsio â'n tîm, gofyn cwestiynau, a chodi unrhyw bryderon sydd gennych.

Ar ddiwedd eich ymweliad, cymerwch amser i fyfrio ar y prosiect a, phan fyddwch yn barod, llenwch ffurflen adborth. Gallwch wneud hynny ar-lein neu ar bapur. Gofynnwch i un o'n tîm am gopi, ynghyd ag amlen bost rhad ac am ddim, neu gallwn eich cyfeirio at y fersiwn ddigidol ar wefan ein prosiect.

Y cynnig i gysylltu â'r grid yw llinell 66kv yn rhedeg am tua 10 km, gyda 5.1 km yn gebl tanddaearol wedi ei gladdu a 4.4km fel llinell uwchben. Byddai'r llinell yn cysylltu Fferm Wynt Foel Trawsnant a gafodd gydsyniad â rhwydwaith y Grid Cenedlaethol.

Bydd y fferm wynt yn cynhyrchu hyd at 33MW o ynni glân, gwyrdd, gan helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o sicrhau 100% o'i defnydd trydan blyneddol o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035.

Welcome

Welcome to our public consultation event. Our aim is to provide you with detailed information on proposals for Foel Trawsnant Grid Connection. It's also an opportunity for you to chat with our team, ask questions, and raise any concerns you may have.



At the end of your visit, please take some time to reflect on the project and, when you're ready, fill in a feedback form. You can do so online or on paper. Just ask one of our team for a copy, along with a free post envelope, or we can direct you to the digital version on our project website.


The grid connection proposal is for a 66kv line running for around 10 km, with 5.1 km being buried underground cable and 4.4km as overhead line. The line would connect the consented Foel Trawsnant Wind Farm to the National Grid network.

The wind farm will generate up to 33MW of clean, green energy, helping to address the climate emergency and contributing to the Welsh Government's target of delivering 100% of its annual electricity consumption from renewable sources by 2035.



ftgrid.co.uk
consultation@ftgrid.co.uk
01656 330844





Pennant Walters

Ni yw Pennant Walters, datblygwr ynni adnewyddadwy cynhenid mwyaf Cymru. Rydym yn gwmni lleol sy'n gweithredu'n genedlaethol, gan gyflogi tua 500 o bobl.

Fel is-gwmni i Grŵp Walters, rydym wedi arallgyfeirio'n sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf, gan ddatblygu, adeiladu, ac yn awr gweithredu chwe fferm wynt a rhywfaint o ynni solar yn Ne Cymru – gan gynhyrchu cyfanswm o 127MW. Mae gennym ni 104MW arall o gapasiti ar y tir wedi'i ganiatáu ac yn aros i gael ei adeiladu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan gynnwys Foel Trawsnant.

Pennant Walters

We are Pennant Walters, Wales' largest home-grown renewable energy developer. We're a local company operating nationally, employing around 500 people.



As a subsidiary of the Walters Group, we've diversified significantly over the past 20 years, developing, building and now operating six wind farms and some solar in South Wales - generating a total of 127 MW. We have another 104 MW of onshore capacity permitted and awaiting construction over the next few years, including Foel Trawsnant.



ftgrid.co.uk

consultation@ftgrid.co.uk

01656 330844





Fferm Wynt Foel Trawsnant


Cymeradwywyd Fferm Wynt Foel Trawsnant yn wreiddiol yn 2017. Yn ddiweddarach, gwnaeth Pennant Walters gais i amrywio'r caniatâd, gan leihau nifer y tyrbinau o 13 i 11. Yn 2023, yn dilyn amrywiad ychwanegol i'r caniatâd gwreiddiol, rhoddwyd caniatâd ar gyfer 8 tyrbîn hyd at 145m o uchder i'r blaen.

Bydd y fferm wynt yn cael ei hadeiladu ar Foel Trawsnant, rhwng cymoedd Afan a Llynfi i'r gogledd-orllewin o Faesteg, o fewn ffiniau CBS Castell-nedd Port Talbot. Unwaith y bydd y fferm wynt wedi'i hadeiladu, gallai gynhyrchu hyd at 33MW.

Foel Trawsnant Wind Farm

Foel Trawsnant Wind Farm was initially approved in 2017. Pennant Walters later applied to vary the consent, reducing the number of turbines from 13 to 11. In 2023, following a further variation to the original consent, approval was granted for 8 turbines at up to 145m in height to tip.


The wind farm will be constructed on Foel Trawsnant, between the Afan and Llynfi valleys to the north-west of Maesteg, within the boundaries of Neath Port Talbot CBC. Once constructed, the wind farm could generate up to 33MW.



ftgrid.co.uk

consultation@ftgrid.co.uk

01656 330844



Cynigion cysylltiad grid

Mae angen y cysylltiad grid hwn i gysylltu'r fferm wynt â'r grid cenedlaethol. Mae'r cynnig cysylltiad (y man y bydd y llinell yn cysylltu â'r grid cenedlaethol ynddo) wedi bod ar waith ers 2013, pan wnaethom gais gyntaf am ganiatâd cynllunio ar gyfer y fferm wynt.

Byddai'r llinell 66kv wedi'i lleoli'n bennaf o fewn CBS Pen-y-bont ar Ogwr, yn rhedeg trwy ochr orllewinol Maesteg i fan cysylltu i'r de-orllewin o Langynwyd.

Byddai'r llwybr yn dechrau ac yn gorffen yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gan gwmpasu cyfanswm pellter o tua 10km. O hyn, bydd 5.1km o dan y ddaear, gyda 4.4 km uwchben.

Byddai'r llinell uwchben yn cynnwys polion H pren (gweler y llun) ar uchder o hyd at 15 m. Mae'r polion hynny yn cynnwys dau bolyn pren unigol wedi'u cysylltu gan drawsfraich â chyplysau.

Nid yw polion fel arfer yn gofyn am sylfeini concrit, ond bydd blociau concrit wedi'u rhagfwrw yn cael eu gosod o dan y ddaear i ddarparu cefnogaeth. Bydd y llinell mor syth â phosibl oni bai bod angen osgoi rhai nodweddion, fel coed.

Er bod y cais hwn yn cael ei gyflwyno gan Pennant Walters, National Grid Electricity Distribution (NGED, Western Power Distribution gynt) fyddai'n gwneud y gwaith adeiladu, yn berchen ar y llinell ac yn ei gweithredu ar ôl adeiladu.

Grid connection proposals

This grid connection is needed to connect the wind farm to the national grid. The connection offer (the point at which the line will connect to the national grid) has been in place since 2013, when we first applied for planning consent for the wind farm.

The 66kv line would be situated predominantly within Bridgend CBC, running through the western side of Maesteg to a connection point southwest of Llangynwyd.

The route would start and finish in Neath Port Talbot CBC, covering a total distance of around 10km. Of this, 5.1km will be underground, with 4.4 km overhead.

The overhead line would consist of wooden H-Poles (see image) at a height of up to 15 m. These poles consist of two single wooden poles joined by a crossarm with bracing.

Poles do not usually require concrete foundations, but precast concrete blocks will be installed below ground to provide support. The line will be as straight as possible unless certain features, such as trees, need to be avoided.



Whilst this application is being submitted by Pennant Walters, it is National Grid Electricity Distribution (NGED, formerly Western Power Distribution) who would undertake the construction work, own and operate the line post construction.



ftgrid.co.uk

consultation@ftgrid.co.uk

01656 330844



Prif Gynllun Cysylltiad Grid

Byddai'r llwybr arfaethedig yn cychwyn yn lleoliad Fferm Wynt Foel Trawsnant y rhoddwyd caniatâd iddo, a byddai'n mynd ymlaen fel a glyn:

1. **Llinell uwchben (OHL) ar bolion pren i King's Terrace (llinell goch).**
2. **Cebl tanddaearol (UGC) trwy Kings Terrace, Teras Davies, Heol Garnwen, Heol Tŷ Gwyn, Heol Castell-nedd, Clwb Golff Maesteg, Nant Sychbant, Fferm Sychbant (llinell las)**
3. **Llinell uwchben (OHL) o Fferm Sychbant i fan cysylltu Coedwig Craig yr Aber (llinell goch).**

Grid Connection Masterplan

The proposed route would start at the location of the consented Foel Trawsnant Wind Farm, and would proceed as follows:

1. **Overhead line (OHL) on wooden poles to King's Terrace (red line).**
2. **Underground cable (UGC) via Kings Terrace, Davies Terrace, Garnwen Rd, Tŷ Gwyn Rd, Neath Rd, Maesteg Golf Club, Nant Sychbant, Sychbant Farm (blue line)**
3. **Overhead line (OHL) from Sychbant Farm to Craig yr Aber Woods connection point (red line).**

Eglurhad

- Fferm Wynt Foel Trawsnant
- Cysylltiad Grid - llinellau uwchben ar bolion pren hyd at 10m o uchder
- Cysylltiad Grid - ceblau tanddaearol
- Pwynt cysylltiad grid
- 🏫 Ysgol Gynradd Nantyffyllon
- 🏥 Ysbyty Cymunedol Maesteg
- 🏘️ Stad Ddiwydiannol Heol Tŷ Gwyn
- 🏌️ Clwb Golff Maesteg
- 🏰 Nant y Castell
- 🏰 Castell Llangynwyd
- 🏠 Y Bwlwarcu
- 🌲 Coedwig Craig yr Aber
- 🏰 Eglwys Sant Cynwyd

Key

- Foel Trawsnant Wind Farm
- Grid connection - overhead lines on wooden poles up to 10m in height
- Grid connection - underground cables
- Grid connection point
- 🏫 Nantyffyllon Primary School
- 🏥 Maesteg Community Hospital
- 🏘️ Heol Tŷ Gwyn Industrial Estate
- 🏌️ Maesteg Golf Club
- 🏰 Nant y Castell
- 🏰 Castell Llangynwyd
- 🏠 Y Bwlwarcu
- 🌲 Craig Yr Aber woods
- 🏰 St Cynwyd's Church



ftgrid.co.uk

consultation@ftgrid.co.uk

01656 330844



Prif Gynllun Cysylltiad Grid Ecoleg


Grid Connection Masterplan Ecology

Eglurhad

- Fferm Wynt Foel Trawsnant
- Cysylltiad Grid - llinellau uwchben ar bolion pren hyd at 10m o uchder
- Cysylltiad Grid - ceblau tanddaearol
- Pwynt cysylltiad grid
- Tir mynediad agored
- Ardaloedd tirwedd arbennig
- Parciau Gwledig

Key

- Foel Trawsnant Wind Farm
- Grid connection - overhead lines on wooden poles up to 10m in height
- Grid connection - underground cables
- Grid connection point
- Open access land
- Special landscape areas
- Country Parks



ftgrid.co.uk

consultation@ftgrid.co.uk


01656 330844


Prif Gynllun Cysylltiad Grid
Amgylchedd hanesyddol

Grid Connection Masterplan
Historic environment

- Eglurhad**
- Fferm Wynt Foel Trawsnant
 - Cysylltiad Grid - llinellau uwchben ar bolion pren hyd at 10m o uchder
 - Cysylltiad Grid - ceblau tanddaearol
 - Pwynt cysylltiad grid
 - Adeiladau rhestredig
 - Tirwedd hanesyddol
 - Henebion cofrestredig
 - Parciau a gerddi cofrestredig

- Key**
- Foel Trawsnant Wind Farm
 - Grid connection - overhead lines on wooden poles up to 10m in height
 - Grid connection - underground cables
 - Grid connection point
 - Listed buildings
 - Historic landscape
 - Scheduled monuments
 - Registered parks and gardens





Yr amgylchedd

Yn ystod cyfnod paratoi'r cynllun hwn, fe wnaethom gynnal cyfres o astudiaethau ecolegol i lywio ein cynlluniau. Mae'r ddau fwrdd nesaf yn edrych ar yr astudiaethau hyn. **Mae'r bwrdd hwn yn manylu ar rai o'r ystyriaethau cynllunio allweddol.**

Gradd o Dir

Mae'r tir a ddefnyddir gan y cynllun hwn wedi'i categoreiddio o Radd 4 i Radd 5, yn ogystal â thir sydd wedi'i categoreiddio fel tir trefol a thir nad yw'n dir amaethyddol. Mae Gradd 5 yn cynrychioli tir sydd wedi'i raddio fel tir o ansawdd gwael iawn.



Coetir Hynafol

Mae cyfanswm o 39 parcel o Restr Coetir Hynafol (AWI) wedi'u nodi o fewn 1km i'r Safle.

Nodwyd un llain AWI - Coetir Hynafol Lled-Naturiol (ASNW) - ym mhen deheuol yr Ardal Arolygu, yn ymestyn dros ddwy lan Nant Lluest-Wen, sy'n llifo drwy'r Safle.

Fodd bynnag, mae'r Datganiad Amgylcheddol drafft yn cadarnhau na fydd unrhyw goed yn cael eu torri ar hyn o bryd mewn coetir hynafol gyda'r pyrrh presennol yn cael eu defnyddio ar gyfer mynediad, gan osgoi'r angen i darfu ar nodweddion llinellol ar gyfer ystlumod.

Gellir gweld dogfennau cais ar wefan Cysylltiad Grid Foel Trawsnant, lle bydd yr holl astudiaethau amgylcheddol a gynhelir ar gael fel rhan o'r cais cynllunio drafft.

Ewch i **ftgrid.co.uk** am ragor o wybodaeth

The environment

During the preparation phase of this scheme, we carried out a series of ecological studies to inform our plans. The next two boards look at these studies. **This board details some of the key planning considerations.**

Grade of Land

The land used by this scheme is categorised from Grade 4 to Grade 5, in addition to land categorised as urban land and non-agricultural land. Grade 5 represents land that is rated as being of very poor quality.



Ancient Woodland

There are a total of 39 parcels of Ancient Woodland Inventory (AWI) that have been identified within 1km of the Site.

One AWI parcel - an Ancient Semi-Natural Woodland (ASNW) - was identified in the southern extent of the Survey Area, spanning both banks of the Nant Lluest-Wen, which flows through the Site.

However, the draft ES confirms that no tree removal will currently take place in ancient woodland with existing gateways used for access, avoiding the need to disturb linear features for bats.

Application documents can be viewed on the Foel Trawsnant Grid Connection website, where all environmental studies conducted will be available as a part of the draft planning application.


Visit **ftgrid.co.uk** for more information




 **ftgrid.co.uk**

 **consultation@ftgrid.co.uk**

 **01656 330844**






Yr amgylchedd

Mae arolygon ecoleg wedi cael eu cynnal i helpu i bennu llwybr elfen llinell uwchben y cysylltiad grid ac i osgoi unrhyw ardaloedd sensitif. Mae'r arolygon hyn wedi cynnwys Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol (PEA), Madfall Ddŵr Gribog, pathewod a Llygoden y Dŵr.

Mae bwriad hefyd i gynnal arolygon ychwanegol i gefnogi a gwirio'r hyn yr ydym eisoes yn ei wybod am y safle, gan gynnwys gwaith yn ymwneud ag adar, ystlumod a dyfrgwn.



Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y prosiect hwn ar ei ennill yn fiolegol. I wneud hyn byddwn yn:

- Cynhyrchu datganiad seilwaith gwyrdd a chynllun cadwraeth.
- Bydd mesurau lliniaru sefydledig yn cael eu gweithredu trwy gydol y Prosiect.
- O ran ecoleg cymerwyd agwedd gam wrth gam, mae hyn yn golygu yn gyntaf osgoi, yna lleihau, lliniaru ac, fel y dewis olaf, gwneud iawn am effeithiau andwyol ar yr amgylchedd sy'n digwydd fel rhan o ddatblygiad.

The environment



Ecology surveys have been undertaken to help determine the route of the overhead line element of the grid connection and to avoid any sensitive areas. These surveys have included a Preliminary Ecological Appraisal (PEA), Great Crested Newt, dormouse and Water Vole.


Further survey work is also proposed to be undertaken to support and verify what we already know about the site, including work relating to birds, bats and otters.



We're committed to ensuring there is a biological net-gain from this project. To do this we will:

- Produce a green infrastructure statement and conservation plan.
- Embedded mitigation measures will be implemented throughout the Project.
- In terms of ecology a step-wise approach has been taken, this entails firstly avoiding, then minimising, mitigating and, as a last resort, compensating for adverse impacts on the environment that occur as part of a development.





Trosolwg o asesiadau

Rydym hefyd wedi cynnal yr astudiaethau canlynol i lywio ein cynlluniau:




Gellir gweld dogfennau cais ar wefan Cysylltiad Grid Foel Trawsnant, lle bydd yr holl astudiaethau amgylcheddol a gynhelir ar gael fel rhan o'r cais cynllunio drafft.

Ewch i **ftgrid.co.uk** am ragor o wybodaeth



Assessments overview

We've also carried out the following studies to inform our plans:



Application documents can be viewed on the Foel Trawsnant Grid Connection website, where all environmental studies conducted will be available as a part of the draft planning application.

Visit **ftgrid.co.uk** for more information





Trafnidiaeth a mynediad

Ar gyfer y prosiect hwn ni fyddai angen llwythi annormal i gael yr offer i'r safle.

Bydd traffig danfon deunyddiau yn mynd o'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) i'r compownd adeiladu. Bydd gweithgareddau gwaith sifil UGC yn cynnwys symud y deunydd adeiladu i fannau mynediad y Prosiect ynghyd â symudiadau staff a danfoniadau deunyddiau eraill rhwng yr SRN, y lloc a phwyntiau mynediad y Prosiect.

Dylai gwaith ddigwydd rhwng 7 am a 7 pm yn ystod yr wythnos a 7 am i 1 pm ar ddydd Sadwrn.

O'r Cynllun Rheoli Adeiladu, mae'n cynnig y bydd gweithgareddau adeiladu yn cael eu lleihau y tu allan i oriau gwaith arferol (gyda gwaith yn digwydd rhwng 07:00 and 19:00 oriau yn ystod yr wythnos a 07:00 i 13:00 ar ddydd Sadwrn). Mewn eithriadau, efallai y bydd angen wythnos waith 7 diwrnod. Byddai hyn yn cael ei gytuno â'r cyngor lleol fel y bo'n briodol.

Transport and access


For this project there would be no abnormal loads required to get the equipment to site.

Materials deliveries traffic will route from the Strategic Road Network (SRN) to the construction compound. The UGC civils works activities will consist of delivery movements of the construction material to the Project access points along with staff movements and other material deliveries between the SRN, the compound and the Project access points.

Works should take place between 7 am to 7 pm on weekdays and 7 am to 1 pm on Saturdays.

From the Construction Management Plan, it proposes construction activities will be minimised outside of normal working hours (with works taking place between 07:00 and 19:00 hours on weekdays and 07:00 to 13:00 on Saturdays). In exceptions, there may be a requirement for a 7-day work week. This would be agreed with the local council as appropriate.






Rheoli effeithiau lleol

Byddai'r rhannau o'r cysylltiad sydd o dan y ddaear yn cael eu gosod ar hyd ymylon ffyrdd, â cheblau yn cael eu gosod yn syth i ffosydd sydd hyd at 1.5 metr o led.

Bydd Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarthu (DNO) yn cytuno naill ai i gau ffordd â'r awdurdod priffyrdd lleol a/neu weithredu mesurau rheoli traffig priodol ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â phriffyrdd.




Rydym yn rhagweld y bydd adeiladu yn cymryd hyd at 9 mis i'w gwblhau.

- Chwe mis ar gyfer agor ffosydd a gosod y dwythellau
- Un mis ar gyfer gwaith tynnu ceblau a gwaith uniadu
- Dau fis ar gyfer codi polion llinell uwchben.

Managing local impacts



The sections of the connection that are underground would be laid along the edges of roads, with cables laid directly into trenches which are up to 1.5 meters wide.

The Distribution Network Operator (DNO) will agree either a road closure with the local highways' authority and/or implement appropriate traffic management measures for the works associated with the highways.



We anticipate that construction will take a maximum of 9 months to complete.

- Six months for trenching and laying the ducts
- One month for cable pull through and jointing works
- Two months for erecting overhead line poles



Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol


Mae'r ddogfen Effaith Tir a Gweledol (Pennod 6 o'r DA Drafft) yn ystyried effeithiau'r datblygiad ar y dirwedd.

Mae'r prosiect yn defnyddio polion H pren sy'n cynnwys polion pren sengl wedi'u cysylltu â chroesfraich gyda chyplysydd. Ar ddiwedd pob rhan o gebl tanddaearol bydd un llinell o Bolion H ag uchder mwyaf o 15 metr.

Mae cysylltiadau grid yn ôl eu natur yn tueddu i greu effeithiau ond ni ystyrir bod yr effeithiau hynny mor arwyddocaol fel eu bod yn annerbyniol. Yn achos y prosiect hwn, nid oes angen llawer o gymorth ychwanegol ar gyfer defnyddio polion H, sy'n weddol syml i'w codi, ac sy'n isel mewn proffil ag uchafswm uchder o ddim ond 15 metr.

Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymdoddi i'r dirwedd ac yn cael llawer llai o ardrawiad gweledol na pheilonau dellt dur mwy sydd eisoes yn bresennol yn y dirwedd. At ei gilydd, mae Polion-H yn nodweddion cyffredin yng nghefn gwlad ac er y bydd eu cyflwyno yn amlwg nid ydynt yn cael eu hystyried yn niweidiol i'r dirwedd.

I weld rhagor o wybodaeth am effeithiau gweledol a thirwedd, gallwch ymweld â'n gwefan, lle gallwch weld ein dogfen Effaith Tir ac Effaith Weledol (Datganiad Amgylcheddol Drafft Pennod 6) yn ftgrid.co.uk



Landscape and visual impact


The Land and Visual Impact document (Draft ES Chapter 6) considers the effects of the development on the landscape.


The project makes use of wooden H-Poles which consist of single wooden poles joined by a crossarm with bracing. At the end of each section of underground cable there will be one line of H-Poles with a maximum height of 15 metres.

Grid connections by their nature tend to create effects but those effects are not considered to be so significant as to be unacceptable. In the case of this project the use of H-poles, which are fairly simple to erect, require little in the way of additional support, and are low in profile with a maximum height of only 15 metres.

This ensures they blend into the landscape and have considerably less visual impact than larger steel lattice pylons which are already present within the landscape. Overall, H-Poles are common features in the countryside and whilst the introduction of them will be evident they are not considered to be harmful to the landscape.

To see more information on landscape and visual impacts, you can visit our website, where you can view our Land and Visual Impact document (Draft Environmental Statement Chapter 6) at ftgrid.co.uk





Y broses gynllunio

Mae'r datblygiad hwn yn cael ei ddosbarthu fel datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), ac fel y cyfryw, bydd y cais yn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio Amgylchedd Cymru (PEDW), fydd yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd.

Y camau nesaf

Yn dilyn y broses ymgynghori hon, byddwn yn casglu'r holl adborth ac yn ysgrifennu adroddiad ymgynghori. Yn yr adroddiad hwn, bydd Pennant Walters yn ymateb i'r holl sylwadau, gan amlinellu unrhyw effeithiau ar y cais terfynol.

Yna bydd yr holl ddogfennau cais drafft yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno ar gyfer cais ynghyd â'r Adroddiad Ymgynghori.

Ar ôl ei ddilysu gan PEDW, bydd y cais yn mynd i mewn i gyfnod o archwiliad gan arolygwyr PEDW. Bydd hyn yn cynnwys proses ymgynghori PEDW ei hun. Wrth lenwi'r ffurflen adborth, mae opsiwn i roi caniatâd i'ch manylion cyswllt personol gael eu rhannu â PEWD fel y gallant hefyd ymgynghori â chi ar y cais.

Os bydd ein cais yn llwyddiannus, byddem yn gobeithio dechrau adeiladu ym mis Ionawr 2028 am gyfnod o 9 mis.

The planning process

This development is classed as a Development of National Significance (DNS), and as such, the application will be submitted to Planning Environment Decisions Wales (PEDW), who will decide whether to grant permission.

Next steps

Following this consultation process we will collate all feedback and write a consultation report. In this report Pennant Walters will respond to all comments, outlining any impacts on the finalised application.

All draft application documents will then be finalised and submitted for application along with the Consultation Report.

Following validation by PEDW, the application will enter a period of examination by PEDW inspectors. This will include PEDW's own consultation process. When completing the feedback form, there is an option to consent to your personal contact details being shared with PEWD so they can also consult with you on the application.

If our application is successful, we'd hope to begin construction in January 2028 for a period of 9 months.

Amserlen ddangosol

Ionawr - Chwefror 2025
Ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid

Mawrth – Mai 2025
Ymgynghoriad statudol

Mehefin/Gorffennaf 2025
Cyflwyniad gan gynnwys adroddiad ymgynghori PAC

Hydref 2025
Arholiad cais gan PEDW

Gaeaf 2025/26
Penderfyniad

Indicative timeline

January - February 2025
Early stakeholder engagement

March – May 2025
Statutory consultation

June/July 2025
Submission including consultation PAC report

Autumn 2025
Application examination by PEDW



Winter 2025/26
Determination




ftgrid.co.uk

consultation@ftgrid.co.uk

01656 330844





Diolch i chi am ddod i'n digwyddiad heddiw. Gobeithiwn ei fod yn ddefnyddiol i chi.

Dweud eich dweud

Hoffem yn fawr iawn glywed eich barn a'ch mewnwelediad ar ein cynigion ar gyfer Cysylltiad Grid Foel Trawsnant. Gallwch wneud hynny drwy lenwi ein **ffurflen adborth** sydd ar gael:



ftgrid.co.uk



Ar bapur yn y digwyddiad heddiw, ynghyd ag **amlen rhadbost** Dychwelwch y ffurflen erbyn **30 Ebrill i Freepost GRASSHOPPER CONSULT** (nid oes angen stamp).

Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy unrhyw un o'r canlynol:



consultation@ftgrid.co.uk



01656 330844



Freepost GRASSHOPPER CONSULT (dim angen stamp)

Thank you for coming along to our event today. We hope that you found it useful.

Have your say

We'd very much like to hear your views and insights on our proposals for the Foel Trawsnant Grid Connection. You can do so by completing our **feedback form** which is available:



ftgrid.co.uk



On paper at today's event, along with a **freepost envelope** Please return the form by **30 April** to **Freepost GRASSHOPPER CONSULT** (no stamp needed).

You can also contact us through any of the following:



consultation@ftgrid.co.uk



01656 330844



Freepost GRASSHOPPER CONSULT (no stamp needed)



ftgrid.co.uk



consultation@ftgrid.co.uk



01656 330844

